**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

17 Ionawr 2024

Annwyl Mick,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Yn ein cyfarfod ar 15 Ionawr 2024, gwnaethom drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid mewn cysylltiad â'r gyllideb ddrafft.

Yn dilyn cais fy Mhwyllgor am wybodaeth yn fy llythyr ar 10 Hydref 2023, byddwn yn ddiolchgar pe gallech hefyd roi gwybodaeth mewn cysylltiad â'r materion sydd wedi'u hamgáu yn yr Atodiad.

Fel y gwyddoch, y dyddiad hwyraf i bwyllgorau'r Senedd gyflwyno adroddiad ar gynigion y gyllideb ddrafft yw 5 Chwefror 2024. Er mwyn i'm Pwyllgor i gyflwyno adroddiad erbyn y dyddiad hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi un ymateb i'm llythyr ym mis Hydref ac i'r llythyr hwn erbyn 12:00 ar 23 Ionawr 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

## Atodiad

### Gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder

- Pa effaith y mae cynnydd mewn prisiau wedi'i chael ar gynigion ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ar gyfer cyllideb 2024-25 a sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli?
- Beth yw goblygiadau ymarferol pwysau cyllidebol ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru; a yw'r gwaith o gyflawni'r rhaglen yn cael ei gwtogi ac a yw canlyniadau ac amcanion yn cael eu hailasesu yn y cyd-destun ariannol sydd ohoni?
- Pa ymgysylltiad a gafwyd â sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol i lywio cynigion gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ar gyfer 2024-25?
- A oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i wariant arfaethedig ar gyfer 2024-25 mewn ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â chapasiti carchardai.
- Gwybodaeth am sut y bydd dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfiawnder yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb.
- Gwybodaeth am sut y bydd dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn cefnogi camau i leihau cyfraddau carcharu yng Nghymru, yn enwedig ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Gwybodaeth am sut y bydd gwariant arfaethedig 2024-25 ar gyfiawnder yn bodloni gofynion dyletswydd economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.
- Gwybodaeth am gamau ataliol a fydd yn cael eu cyllido gan y dyraniadau arfaethedig ar wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn 2024-25.
- Gwybodaeth am y graddau y bydd gwaith paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder yn parhau yng ngoleuni pwysau cyllidebol.

### Hygyrchedd y gyfraith

- Gwybodaeth am wariant arfaethedig 2024-25 ar gyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen a gyhoeddwyd yn yr adroddiad blynyddol ar y rhaglen ar gyfer 2022-23.
- Gwybodaeth am wariant arfaethedig yn y maes hwn i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r ddeddfwriaeth ddwyieithog hygyrch a ddarperir.

### Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

- Gwybodaeth am ba gamau a chanlyniadau y bydd y cyllid ar gyfer 2024-25 ar y Comisiwn Cyfansoddiadol yn cael ei ddefnyddio i'w cyflawni.